# Ysgogiad drwy'r croen o gangen serfigol y nerf fagws ar gyfer pen tost clwstwr a meigryn

Mawrth 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae ysgogiad drwy'r croen o gangen serfigol y nerf fagws ar gyfer pen tost clwstwr a meigryn yn gweithio, ond nid oes unrhyw bryderon mawr o ran diogelwch. Dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd.

Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y driniaeth hon ac efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth os caiff rhagor o dystiolaeth ei chyhoeddi.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

### *Sylwadau eraill gan NICE*

Dywedodd NICE fod gan y cleifion sydd wedi cael y driniaeth sylwadau cadarnhaol amdano. Mae astudiaethau pellach yn cael eu cynnal.

## Y cyflwr

Mae pen tost clwstwr yn byliau o boen difrifol ar un ochr y pen, fel arfer o amgylch y llygad. Mae symptomau eraill yn cynnwys llygad coch neu ddyfrllyd neu drwyn yn rhedeg. Gall pen tost clwstwr ddigwydd sawl gwaith y diwrnod a gall bara rhwng ychydig funudau a nifer o oriau, dros gyfnod o ddyddiau, misoedd neu flynyddoedd.

Pen tost difrifol yw meigryn, sy'n aml yn gysylltiedig â theimlo'n sâl a sensitifrwydd i olau a sŵn. Mae rhai cleifion yn cael rhyw fath o rybudd ohono (sef 'awra'), a all gynnwys aflonyddwch ar y golwg, dryswch neu drafferth yn siarad, fel arfer cyn i'r pen tost ddechrau. Gall meigryn bara am nifer o oriau neu ddyddiau, neu'n hirach.

Y driniaeth arferol ar gyfer pen tost clwstwr yw ocsigen neu gyffuriau fel triptanau. Gall cyffuriau fel corticosteroidau neu verapamil atal neu leihau amlder y pyliau.

Y driniaeth arferol ar gyfer pyliau meigryn yw cyffuriau yn cynnwys triptanau, poenladdwyr a chyffuriau gwrth-salwch. Y mathau o gyffuriau a all helpu i atal neu leihau amlder y pyliau yw beta-atalyddion, cyffuriau gwrth-iselder tricyclic a rhai cyffuriau a ddefnyddir ar gyfer trin epilepsi.

Weithiau gellir rhoi cynnig ar driniaethau eraill, yn cynnwys mathau gwahanol o driniaeth ysgogi nerf os nad yw pen tost clwstwr neu feigryn unigolyn yn ymateb i driniaeth â chyffuriau.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio ysgogiad drwy'r croen o gangen serfigol y nerf fagws fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices a gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am ben tost mewn unigolion dros 12 oed fod yn fan da i gael mwy o wybodaeth.

## Y driniaeth

Mae ysgogiad y nerf fagws drwy'r croen yn defnyddio cerrynt trydanol o ddyfais fach a ddelir â llaw i ysgogi nerf yn y gwddf. Y nod yw lleddfu'r boen a lleihau nifer y pyliau o ben tost clwstwr neu feigryn.

Mae'r unigolyn yn gosod y ddyfais, sydd maint ffôn symudol, ar ochr eu gwddf. Caiff lefel yr ysgogiad ei gynyddu'n araf tan y caiff cyfyngiadau yn y cyhyrau eu teimlo o dan y croen. Delir y ddyfais yn y fan am tua 90 eiliad. Gellir ei ddefnyddio i drin pyliau, a rhwng pyliau er mwyn ceisio lleihau nifer y pyliau.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oedd digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio. Roedd yr 5 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 214 o gleifion.

Yn gyffredinol, roeddynt yn dangos y buddiannau canlynol ar gyfer defnyddio'r ddyfais dros fis i ddeufis o'i gymharu â'r driniaeth safonol ar gyfer pen tost clwstwr:

- llai o byliau o ben tost
- lleddfu poen yn gyfan gwbl mewn rhai cleifion, o fewn munudau o ddefnyddio'r ddyfais
- roedd angen triniaethau pen tost eraill ar gyfer llai o achosion
- ansawdd bywyd gwell.

Yn gyffredinol, dangoswyd y buddiannau canlynol ar gyfer defnyddio'r ddyfais ar gyfer meigryn:

- lleddfu poen tua hanner y cleifion, a lleddfu poen yn gyfan gwbl mewn tua 20% o gleifion, o fewn 2 awr o ddefnyddio'r ddyfais
- lleddfu salwch, sensitifrwydd i olau a sŵn mewn tua 30-50% o gleifion
- gwellhad o'r anabledd a achosir gan feigryn mewn tua 30% o gleifion o fewn 2 awr o ddefnyddio'r ddyfais
- roedd angen triniaeth ar gyfer meigryn arall ar gyfer ychydig dros hanner y cleifion 2 awr ar ôl defnyddio'r ddyfais.

Nid oedd unrhyw risgiau difrifol yn gysylltiedig â defnyddio'r ddyfais. Mae'r astudiaethau yn cynnwys adroddiadau bod y ddyfais yn achosi pen tost, pendro, gwddf anystwyth, poen yn y geg a'r gwddf, poen yn yr ysgwydd, crychguriad y galon, cyhyrau'n gwingo, eich gwefus neu'ch wyneb yn disgyn ychydig, ychydig o ddryswch dros dro a'r croen yn cochi o amgylch safle'r driniaeth mewn nifer fach o gleifion.

Dywedwyd wrth NICE am risgiau posibl eraill hefyd: prinder anadl a newidiadau mewn pwysedd gwaed.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1847-8